# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**3.00 y.h., DYDD MAWRTH, 28AIN MAWRTH, 2023**
****NODER Y NEWID MEWN AMSER OS GWELWCH YN DDA****

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**Am fynediad i'r Cyhoedd, cysylltwch a Einir Rh Davies**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 16 Mawrth 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Louise Hughes
Rob Triggs
Eryl Jones-Williams

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robert Williams | Cyngor Tref Abermaw |
| Cynghorydd Matthew Harris | Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw |
| Cynghorydd Brian Woolley | Cyngor Gymuned Arthog |
| Dr John Smith | Grwp Mynediad Traphont Abermaw |
| Wendy Ponsford | Clwb Hwylio Merioneth |
| John Johnson | Cymdeithas Pysgota Bae Abermaw a Ceredigion |
| Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Peter Appleton | Cymrychiolydd Pwyllgor Grwp Gweithredu Lleol Pysgodfeyss Bae Ceredigion |
| Ian Sadler | Pwyllgor Ras y Tri Copa |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| Desmond George | |
| June Jones | |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 8

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Bermo a gynhaliwyd ar 8fed Tachwedd, 2022.

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 9 - 15

I ystyried
a) adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau
b) adroddiad gan yr Harbwrfeistr

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

I ystyried materion ar gais yr Aelodau

**6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar y 24ain o Hydref, 2023

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW, 08 TACHWEDD 2022

**Presenoldeb:**

**Aelodau:**
Y Cynghorydd Rob Triggs (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd), Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Robert Williams (Cyngor Tref Abermaw), Peter Appleton (Cynrychiolydd Pwyllgor Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion) a Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw).

**Swyddogion:**
Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Daniel Arthur Cartwright (Harbwrfeistr Abermaw), Llyr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi ac Chymuned) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Rob Triggs yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi) yn ogystal â Wendy Ponsford (Clwb Hwylio Meirionydd), Mark James (Cymdeithas y Bad Achub) a Ian Sadler (Pwyllgor Ras y Tri Copa).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2022, fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod, a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

**Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben Mawrth 2023.**

- Atgoffwyd yr aelodau fod cylch gorchwyl pwyllgorau'r harbwr wedi cael ei greu o dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a bod Cabinet y Cyngor yn cadarnhau'r aelodaeth.
- Cadarnhawyd bod angen i aelodau'r pwyllgor nodi'n ffurfiol os nad ydynt yn gallu parhau i fynychu'r pwyllgor er mwyn gallu newid yr aelodaeth yn ffurfiol ac ethol cynrychiolydd newydd.
- Eglurwyd fod Aelod Cabinet Economi a Chymuned yn cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfodydd er mwyn trafod materion pwysig gyda'r aelodau, cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ble fydd angen.
- Datganwyd fod lleihad yn y nifer o gychod ar angorfeydd yr harbwr. Cadarnhawyd bod y niferoedd wedi gostwng yn harbyrau eraill y sir hefyd. Er hyn, mae niferoedd y cychod sydd wedi eu hangori yn yr harbwr dal yn uchel ac mae nifer ymwelwyr i'r dref wedi cynyddu. Pwysleisiwyd bod nifer y cychod sydd wedi eu cofrestru i'w cadw yno wedi aros yn gyson.
- Mynegwyd bod cyflwr yr angorfeydd yn dda iawn ac mae llai o doriadau wedi digwydd eleni.
- Esboniwyd bod y swyddogion yn o broses o greu holiadur boddhad cwsmer ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd hwn yn holiadur digidol a gobeithir i'r ffigyrau cychwynnol gael eu rhannu â'r pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**Côd Diogelwch Morol Phorthladdoedd**

- Manylwyd fod yr harbwr wedi cael archwiliad trylwyr gan Wylwyr y Glannau ac wedi derbyn adborth cadarnhaol. Mae'r harbwr wedi derbyn archwiliad gan Berson Dynodedig allanol, sef Capten Mark Forbes o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Cyngor wedi rhyddhau Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod Diogelwch i Asiantaeth Gwylwyr y Glannau fel rhan o'r broses angenrheidiol.
- Soniwyd bod digwyddiad wedi codi yn ddiweddar ble roedd cwch wedi suddo. Mae'r cwch bellach wedi cael ei roi ar y traeth ac mae'r swyddogion wedi cysylltu gydag asiant y cwch. Mae gan y perchennog 21 diwrnod i symud y cwch neu bydd rhaid i'r swyddogion ei dynnu oddi ar y safle. Mynegwyd bod digwyddiadau o'r fath yn anodd ei datrys yn gyflym gan fod anawsterau yn codi gyda phwy sydd yn berchen ar y tir. Nid oes modd i'r swyddogion symud unrhyw gychod oddi ar y tir os yw'n dir preifat neu'n dir rheilffordd.
    - Holiwyd pwy fyddai'n gorfod talu i dalu am symud y cwch hwn a chadarnhaodd y Rheolwr Harbyrau mai'r Awdurdod Harbyrau sydd yn gorfod talu'r gost. Gellir derbyn ad-daliad o'r costau hyn gan y perchennog os oes prawf mai nhw sy'n berchen y cwch.
    - Eglurwyd bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru fas-data o gychod sydd wedi cael eu gadael ar ôl os byddai hynny'n ddefnyddiol i swyddogion yn y dyfodol.

- Mynegwyd pryder am y defnydd o Fadau Dŵr Personol (jet ski) yn yr ardal, gan eu bod yn gallu bod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill y môr.
    - Cadarnhawyd yn dilyn ymholiad diweddar nad ydi'r heddlu yn gallu ymyrryd gyda'r sefyllfa ar hyn o bryd. Os byddai digwyddiad ble fydd unigolion wedi cael eu hanafu, byddai'r heddlu yn gallu ymchwilio.
    - Cydnabuwyd bod badau dŵr yn haws i'w rheoli pan yn fadau masnachol ond mae rhai personol yn anodd iawn i'w rheoli gan na fod yna unrhyw anghenion yswiriant neu gymhwyster ei angen i yrru'r cwch.
    - Nodwyd bod y gyfraith angen ei ddiwygio er mwyn sicrhau diogelwch unigolion. Soniwyd y byddai'n ddefnyddiol i ysgrifennu i'r llywodraeth.

    - Ychwanegwyd bod camerâu cylch cyfyng newydd wedi cael eu rhoi yn yr ardal yn ddiweddar ac efallai bydd heini yn gymorth i ganfod perchnogion y Badau Dŵr Personol.
    - Eglurwyd bod teimladau aelodau'r pwyllgor yn ategu pryderon y swyddogion. Er hyn, pwysleisiwyd bod Cynghorau Môn, Conwy a harbwr Caernarfon eisoes wedi mabwysiadu'r system cofrestru sydd wedi cael ei ddefnyddio gan Wynedd ers blynyddoedd a gobeithir bydd mwy o ardaloedd a siroedd eraill yn ei ddefnyddio'n fuan.
- Tynnwyd sylw at y pontŵn sydd wedi ei osod ar yr harbwr yn dilyn grant a dderbyniwyd gan glwb hwylio Meirionnydd. Mae'r pontŵn wedi bod yn adnodd gwych ond yn anffodus mae costau ei gynnal wedi cynyddu yn ddiweddar ac nid ydynt yn gallu edrych ar ei ôl yn ddigonol. Mae'r pontŵn yn fater diogelwch erbyn hyn a rhaid atgoffa pobl ei fod at ddefnydd cychod ysgafn yn fyr dymor neu i gychod eraill os bydd argyfwng. Diolchwyd i'r Clwb Hwylio am eu camera wê er mwyn gallu cadw llygad ar y pontŵn o bell.
- Trafodwyd y syniad o gyflwyno parth nofio yn yr harbwr. Mae pyrth tebyg wedi bod yn llwyddiannus mewn harbyrau eraill. Byddai hyn yn galluogi pobl i nofio'n saff o fewn yr harbwr. Er hyn mae diogelwch yn broblem fawr ac mae angen meddwl yn ofalus sut byddai'n gweithio cyn cyflwyno'r parth i'r harbwr.
- Clodforwyd swyddogion RNLI am gynnal hyfforddiant gyda staff traethau yn ddiweddar.
- Mynegwyd pryder am dywod sydd yn cael ei gario oddi ar y morglawdd.

**Materion Staffio**

- Diolchwyd i'r holl staff am ei ymrwymiad at waith yr harbwr a thraethau cyfagos dros y cyfnod diwethaf a chadarnhawyd na ragwelir bydd lleihad yn nifer o aelodau staff yn y dyfodol agos.
- Datganwyd fod y traeth wedi cael cyfnod prysur iawn dros yr haf ac mae'r wardeniaid wedi bod yn cwblhau eu gwaith yn effeithiol iawn. Pe bydd yn bosib, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ymestyn eu tymor cyflogaeth y tymor nesaf ac edrych ar y cyfleusterau er mwyn sicrhau nad oes rhaid i unrhyw un weithio ar eu pen eu hunain.

- Mynegwyd bod y wardeniaid traeth angen caban gwell na'r un sydd ar y safle yn bresennol, gan nad yw'n addas.
    - Cadarnhawyd fod y broblem yma yn cael ei ddelio gydag o dan gynlluniau gwelliannau traethau os bydd digon o gyllideb. Mae datblygiadau eraill hefyd yn cael ei wneud ar y traeth megis gwella'r toiledau cyhoeddus.
- Trafodwyd y broblem barhaus o gronni tywod sy'n digwydd ar y traeth. Byddai'n syniad i gael datrysiad o sut i atal y tywod rhag cael ei chwythu i'r pentref ac ar draws llithrfa'r bad achub. Pryderwyd bydd y tywod yn mynd allan o'r traeth ac yn gorchuddio'r maes parcio, gan greu costau ychwanegol i'r Cyngor yn y blynyddoedd nesaf os na fydd datrysiad.
    - Cydnabuwyd bod ardal Conwy wedi cael llwyddiant yn ddiweddar wrth fewnosod pwmp yn yr ardal i helpu atal y broblem hon.
    - Pwysleisiwyd bod difrifoldeb y broblem yn wybyddus i bawb ac mae sawl opsiwn yn cael ei drafod er mwyn ceisio datrys y broblem yma yn effeithiol ac yn barhaol.
    - Cytunwyd bydd cyfarfod rhwng defnyddwyr yr harbwr yn fuan er mwyn trafod y mater hwn ymhellach ac i rannu syniadau.
- Croesawyd Daniel Cartwright fel Harbwr Feistr newydd Harbwr Abermaw a Kane Triggs fel cynorthwyydd harbwr.

- Trefnwyd i yrru diolchiadau i'r cyn Harbwr Feistr sef Ms Bergitte Evans am ei gwaith ac i Jordan Hewlett yn ei swydd fel Cymhorthydd Harbwr.
- Canmolwyd y cydweithio da sy'n parhau i ddigwydd rhwng swyddogion yr harbwr a swyddogion y traeth. Mae hyn wedi bod yn werthfawr iawn yn ystod y cyfnod diweddar o ddiffyg recriwtio. Gobeithir bydd 5 aelod o staff yn cael ei penodi i oruchwylio'r traeth yn 2023.
    - Nodwyd wrth recriwtio swyddogion i weithio ar y traeth, eu bod nhw angen hyfforddiant cymorth cyntaf digonol
    - Cytunwyd bod yr hyfforddiant hwn yn angenrheidiol ar gyfer y swydd ond mae'n anodd sicrhau fod pawb wedi ei dderbyn pan fod staff yn cael eu recriwtio ar adegau gwahanol o'r tymor. Mae'n anodd cyllido nifer o ddyddiau hyfforddiant gwahanol a methu sicrhau fod pawb yn mynd ar yr un diwrnod. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen er mwyn cael opsiynau er mwyn ceisio datrys y broblem hon.

**Materion Ariannol**

- Adroddwyd bod gorwariant wedi bod o fewn maes staffio eleni. Mae hyn gan fod diffygion recriwtio yn golygu fod y swyddogion wedi gorfod gweithio oriau ychwanegol.
- Ymhelaethwyd bod tanwariant wedi bod yn feysydd eiddo, trafnidiaeth, offer a chelfi ac bod diffyg mewn cwrdd a tharged incwm. Wedi dweud hyn, mae buddsoddiad o £12,000.00 yn cael ei wneud ar gwch yr harbwr yn ogystal â chadwyni a cymhorthyddion mordwyo o fewn y flwyddyn ariannol hon.
- Cadarnhawyd y rhagwelir tanwariant o £15,293.00 yn y flwyddyn ariannol hon.
- Ystyriwyd cyfraddau ffioedd am y flwyddyn ariannol nesaf. Nid ydi'r rhain wedi cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar hyn o bryd gan fod chwyddiant yn cynyddu yn dilyn y wasgfa ariannol bresennol. Gobeithir canfod dull o beidio codi ffioedd i ddefnyddwyr yr harbwr yn ormodol gan fuasai'r cynnydd hwn yn effaith mawr ar ddefnyddwyr a chynyddu'r risg o leihau'r nifer o ddefnyddwyr yn y dyfodol.
    - Ymhelaethwyd mai ffigwr chwyddiant ar yr harbyrau am y flwyddyn nesaf ydi 8.5%.

**Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a Hydref 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

- Mynegwyd bod y buddsoddiad yn y cymorthyddion mordwyo wedi bod yn effeithiol. Nid oes llawer o broblemau wedi bod gyda nhw ond nodir nad ydi un ohonyn nhw yn y man priodol ar hyn o bryd. Mae Hysbysiad Lleol i Forwyr allan ar hyn o bryd ar gyfer y bwi perthnasol sef bwi Tramwyo.
- Cadarnhawyd bod asesiad wedi cael ei gynnal gan Tŷ Drindod ar y cynorthwyon mordwyo a bod yr asesiad hwnnw wedi bod yn llwyddiannus.
- Nodwyd bod gwaith y rheilffordd agos yn parhau i mewn i bedwaredd flwyddyn er mwyn gwella cyflwr llwybr troed sy'n cydredeg a'r traciau.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

**7. ETHOL SYLWEDYDDION**

**PENDERFYNWYD cysylltu gyda holl aelodau'r pwyllgor dros e-bost er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau rhoi eu hunain ymlaen fel sylwedyddion.**

**8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

Dim i'w nodi

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 28ain o Fawrth 2023.**

Cymerwyd y cyfle i ddiolch yn fawr i'r Rheolwr Harbyrau am flynyddoedd o waith caled ac am ei ymrwymiad a'i angerdd tuag at harbyrau'r sir. Rhannwyd dymuniadau gorau iddo yn ei ymddeoliad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00yh a daeth i ben am 3:30yh

__________________________________________

(Cadeirydd)

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
|---|---|
| DYDDIAD | 28 Mawrth 2023 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr |
| AWDUR | Uwch Swyddog Harbwr |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ddiwedd mis Mawrth 2023, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

## 2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.

2.1 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, bydd staff yr harbwr yn cynnal archwiliad o'r angorfeydd trot yn yr harbwr a weithredir gan y Gwasanaeth. Bydd angorfa'r ymwelwyr yn yr harbwr a weithredir gan y Gwasanaeth, yn destun archwiliad gan gontractwr angorfeydd lleol. Rhagwelir y bydd yr holl archwiliadau yn cael eu cwblhau cyn cyfnod y Pasg, yn amodol ar argaeledd y contractwr angorfeydd yn ogystal ag amodau llanw a thywydd ffafriol.

2.2 Bydd system gofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol Cyngor Gwynedd yn parhau i gael ei gweinyddu drwy drefniant ar-lein, gan ganiatáu i gwsmeriaid ddewis y lleoliad mwyaf addas i gasglu trwyddedau cofrestru a lansio. Yn dilyn llwyddiant y trefniant hwn, hyderir y gallwn yn awr ganiatáu i gwsmeriaid angorfeydd gadarnhau a thalu am eu hangorfa yn yr harbwr drwy system ar-lein gyffelyb.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

3.1. Mae’r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

3.1.1 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o ran-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu i fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol Harbwr Abermaw.

3.1.3 Mae'n bryd i'r Gwasanaeth adolygu a diweddaru'r Cod Diogelwch Morol eleni i sicrhau safonau diogelwch yn harbyrau Gwynedd a bod y rhain yn cael eu cadw. Yn ogystal, disgwylir y bydd archwiliad allanol o'r cod yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn gan yr unigolyn a ddynodwyd sef, Capten Matthew Forbes, Harbwrfeistr Conwy.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae'r Gwasanaeth yn falch o gyhoeddi bod Mr Kane Triggs wedi'i benodi fel Harbwrfeistr Cynorthwyol yn Abermaw, i weithio ochr yn ochr â'r Harbwrfeistr. Cyn ei benodiad ar 1 Ionawr 2023, cafodd Mr Triggs brofiad gwaith yn Harbwr Porthmadog ac mae hefyd wedi cyflawni dyletswyddau fel aelod tymhorol o staff traeth Abermaw.

4.2 Mae staff yr harbwr wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf yn yr harbwr, yn ychwanegol at ddarparu cymorth o ran y gwaith sydd ei angen yn harbyrau Aberdyfi a Phorthmadog. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn benodol mewn perthynas ag angorfeydd yr harbwr a'r marciau mordwyo cyn dechrau cyfnod prysur yr haf.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol newydd.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr a'r ôl-gerbyd cysylltiedig
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau drafft ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol am dymor 2023/24. Yr arwyddion presennol yw y bydd ffioedd a thaliadau angorfeydd yn gyffredinol yn codi 8.5%.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Abermaw wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **28 Mawrth 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **Harbwrfeistr Abermaw** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyo i'r harbwr yn ystod cyfnod y gaeaf. Mae wedi dod yn amlwg y bydd natur ddynamig yr afon, yn benodol ger y fynedfa i'r sianel tua'r môr yn y Bar, yn golygu y bydd rhaid ail-leoli cymhorthion mordwyo'r Porthladd a Starbord yn y cyffiniau yn fuan.

1.2 Mae bwi Fairway wedi'i adnewyddu a'i baratoi ac yn barod i gael ei osod mewn dŵr diogel wrth ddod i mewn i'r sianel fordwyol. Bydd y bwi, sydd ag offer angori newydd wedi'i ffitio arno, yn cael ei osod yn ei le cyn gynted â phosib, yn amodol ar argaeledd y contractwr angorfeydd yn ogystal â thywydd da ac amodau'r llanw.

1.3 Yn dilyn awdurdodiad gan Dŷ'r Drindod, mae cymhorthydd llaw Porthladd newydd wedi'i osod yn y sianel fordwyo ar safle 52°42.908'N 004°03.308'W, rhwng morglawdd yr harbwr a'r South Cardinal Mark a leolir yn y Perch.

1.3.1 Mae'r bwi newydd wedi'i farcio fel Rhif 10 gyda nod fflachio awdurdodedig o FL R (4) 15s. Mae'r bwi wedi cael ei osod yn y sianel fordwyo i gynorthwyo morwyr i fordwyo tafod o dywod a oedd wedi dechrau symud i'r sianel yn y pwynt hwnnw.

1.4 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Abermaw:

Hysbysiad Lleol i Forwyr 05/22: Nid yw Bwi Fairway ar safle 52°42.796N 004°04.906W "ar ei safle priodol" ar hyn o bryd.

Hysbysiad Lleol i Forwyr 02/23: Mae cymhorthydd llaw Porthladd rhif 10 bellach ar safle 52°42.908'N 004°03.308'W.

1.5 Mynychodd archwiliwr o Dŷ'r Drindod y Gwasanaeth ar 24 Ionawr 2023 i gynnal archwiliad o gofnodion o argaeledd y cymhorthion mordwyo lleol o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Yn dilyn yr archwiliad, derbyniwyd adroddiad oedd yn nodi bod popeth mewn trefn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi oedd angen sylw pellach.

1.6 Atgoffir morwyr o'r angen i gysylltu gyda swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd yr harbwr i gael y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf a gwybodaeth am y tywydd.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Yn dilyn archwiliad arferol o'r trelar ffordd sy'n dal cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr, cynghorwyd y Gwasanaeth o'r angen i brynu trelar newydd i gludo'r cwch.

2.1.1 Cysylltwyd â chwmni sy'n arbenigo yng ngwneuthuriad trelars o'r fath ac mae trelar newydd wedi'i gyflenwi ar gost net i'r Gwasanaeth o £3820.

2.2 Yn dilyn nifer o broblemau cynnal a chadw a gafwyd gyda'r peiriannau ar gwch patrôl yr harbwr y tymor diwethaf, cynghorwyd y Gwasanaeth i newid y peirannau dwbl ar y cwch. Mae'r gwaith i osod y peiriannau newydd wedi dechrau ac yn cael ei wneud gan gwmni lleol. Gobeithir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ar ddechrau mis Mawrth.

2.2.1 Yn dilyn newidiadau rheolaethol mewn gofynion codio cychod, mae'r cwch 'Powercat' hefyd wedi bod yn destun gwiriadau archwilio adeiladwaith, sefydlogrwydd ac offer o ran eu cydymffurfiaeth â gofynion gweithredu cychod yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau.

2.3 Ar ôl cynnal a chadw arferol, mae golau rhybuddio ar y to a system uwch-seinydd newydd wedi'u gosod yn ddiweddar ar y cerbyd patrolio morwrol. Bydd y system newydd yn cynorthwyo staff sy'n gweithio ar y traeth i rybuddio'r cyhoedd am unrhyw broblemau diogelwch neu beryglon amlwg ar adeg berthnasol.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Mae staff yr harbwr wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar nifer o gymhorthion mordwyo yn ystod cyfnod y gaeaf, gan gynnwys atodi offer angori newydd.

3.2 Ar hyn o bryd, mae'r angorfeydd trot mawr a bach a weithredir gan y Gwasanaeth yn destun archwiliad a gwaith cynnal a chadw arferol er mwyn paratoi ar gyfer y tymor nesaf. Mae llinellau cysylltu a fflotiau newydd wedi'u hatodi i'r angorfeydd trot bach ac mae'r Gwasanaeth yn y broses o atodi llinellau cysylltu newydd i'r angorfeydd trot mwy.

3.2.1 Mae staff yr harbwr wedi dechrau rhifo'r holl angorfeydd a leolir yn yr harbwr er hwylustod cyfeirio i gadarnhau manylion am gychod a pherchnogaeth.

3.3 Yn ddiweddar, mae'r drysau pren i orsaf ail-lenwi'r harbwr wedi cael eu newid yn defnyddio pren fydd yn gwrthsefyll tywydd garw. Mae'r gwaith gosod wedi cynnwys cloeon a phyrth awyru newydd yn yr adeilad. Bydd drysau newydd ar gyfer mynediad i brif storfa adeilad SS Dora hefyd yn cael eu gosod yn fuan.

3.4 Mae staff wedi dechrau cynnal a chadw'r Tŷ Crwn hanesyddol a'r ardal amgylchynol i'w cadw'n lân ac yn rhydd o wastraff wedi'i daflu a chwyn.

3.5 Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i berchnogion y cychod gweini bychan a leolir ar rac gweini blaen yr harbwr, am symud eu cychod gweini i hwyluso'r gwaith cynnal a chadw dros gyfnod y gaeaf.

## H 4 Materion Eraill

4.1 **Gwaith Adnewyddu Pont Rheilffordd Abermaw**: Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd mewn trafodaeth gyda staff prosiect ynghylch tynnu'r gwaith haearn presennol ar y bont o'r harbwr, cyn gosod strwythurau newydd. Rhoddir gwybod am unrhyw effaith ar fordwyo drwy gyhoeddi Hysbysiad Lleol i Forwyr.

4.2 **Twyni Tywod Traeth Abermaw**: Yn ddiweddar, mae staff yr harbwr wedi gosod hydoedd ychwanegol o ffensys palis ger Ynys y Brawd a'r sarn gysylltiedig, i gynorthwyo gyda datblygiad twyni tywod. Hyderir y bydd hyn yn gymorth i atal tywod rhag cael ei ddyddodi ar y sarn ac ardal Ynys y Brawd.

4.2.1 Rhagwelir y bydd y tywod sy'n gorchuddio'r sarn ar hyn o bryd yn cael ei glirio cyn cyfnod y Pasg.

## H 5 Digwyddiadau

5.1 Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn hysbysiad o'r digwyddiadau isod fydd yn cael eu cynnal yn, ac o gwmpas, ardal yr harbwr eleni.


- Ras Hwylio'r 'Tri Chopa' wedi'i threfnu ar gyfer 10 Mehefin
- Ras ffordd (10km) i'w chynnal ar 10 Mehefin.
- ‘Gŵyl Fwyd’ i'w chynnal dros benwythnos 1 – 2 Gorffennaf.
- Gŵyl Farcudiaid hefyd i'w chynnal dros benwythnos 1 – 2 Gorffennaf.
- Rali lorïau tras (*vintage*) i'w chynnal ar 16 Medi.
- Digwyddiad Motorcross

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau arfaethedig o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw i swyddfa'r harbwr. Bwriad hyn yw sicrhau bod modd asesu'r holl brotocolau diogelwch a phrosesau gweinyddol cyn digwyddiad. Ni chaniateir cynnal digwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi'i dderbyn.

| DG54 - HARBWR ABERMAW | | 01/04/2022 hyd at 31/03/2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT A RHAGWELIR HYD AT 31/03/2023 | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 65,930 | 52,982 | (12,948) |
| | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 6,790 | 6,757 | (33) |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 820 | 90 | (730) |
| | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 10,170 | 20,004 | 9,834 |
| | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (30,760) | (33,869) | (3,109) |
| | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 52,950 | 45,964 | (6,986) |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Barmouth Harbour / Harbwr Abermaw

## Janurary 2023




| | |
|---|---|
| Fairway buoy | 52°42.776N 004°04.906W |
| LFl.10 sec NOT ON STATION | |
| No.1 Starboard Buoy | 52°42.754N 004°04.220W |
| Qk Fl G | |
| No.2 Port Buoy | 52°42.772N 004°04.208W |
| Fl R. 2 sec | |
| No.4 Port Buoy | 52°42.786N 004°04.044W |
| 2L Fl R.7 sec | |
| No.6 Port Buoy | 52°42.761N 004°03.926W |
| Qk Fl R | |
| No.8 Port Buoy | 52°42.767N 004°03.760W |
| Fl(3) R 10 sec | |
| South Cardinal Perch | 52°42.822N 004°03.720W |
| Q(6)+Lf(1).15 sec | |
| Breakwater Port | 52°42.989N 004°03.127W |
| Fl R(5) 5s5m | |
| No.3 Starboard Inner mark | 52°43.013N 004°03.082W |
| Fl G 1.5 sec | |

This illustration is intended as a guide only and not to be used for navigation. All positions are given as approximate. The aids to navigation may be moved without prior notice. Mariners are advised to contract the harbour masters office for the latest navigational information.


Tel : 01341 280 671

Email: danielarthurcartwright@gwynedd.llyw.cymru